Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf ym Mlwyddyn 2.

Iaith

Yn ystod ein sesiynau iaith y tymor yma byddwn yn parhau i ddatblygu ein sgiliau ysgrifennu. Byddwn yn ymarfer ein sgiliau atalnodi er mwyn ysgrifennu'n gywir ac yn ymarfer geiriau allweddol a geiriau thematig er mwyn eu defnyddio yn ein gwaith. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein llawysgrifen eleni gyda sesiynau penodol yn digwydd pob Dydd Gwener. Byddwn yn cyflawni nifer o dasgau hwyl y tymor yma, er enghraifft ysgrifennu disgrifiad, ail-ysgrifennu stori, creu poster, ysgrifennu cyfarwyddiadau ayyb. Byddwn yn darllen llyfrau fel dosbarth, darllen fel grŵp a dewis llyfrau ar y lefel cywir i'r unigolyn i fynd adref yn wythnosol ar Ddydd Gwener a'u dychwelyd ar Ddydd Llun gyda'r cofnodion.

Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau Ymarfer Corff, byddwn yn astudio Gymnasteg ac yn dysgu symudiadau penodol, gan ystyried yr effaith mae ymarfer corff yn cael ar ein cyrff a'n iechyd meddwl. Themâu Jigsaw y tymor yma yw: Fi yn Fy Myd a Dathlu Gwahaniaethau. Byddwn yn trafod sut rydym yn perthyn ac yn teimlo'n ddiogel mewn llefydd amrywiol a sut i fod yn ffrind da yn ein dosbarth.

Mathemateg

Yn ystod ein gwersi mathemateg byddwn yn parhau i ddatblygu a chydblethu sgiliau rhifedd wrth gwblhau problemau pythefnosol gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau. Byddwn yn annog y plant i resymu'n ofalus a chymhwyso sgiliau addas er mwyn datrys y broblemau. Am fwy o wybodaeth gallwch edrych ar wefan yr ysgol:

www.ysgolpenalltau.com

Sut gallwch helpu eich plentyn adref:-

-Ymarfer dweud, darllen ac ysgrifennu geiriau thematig.
-Dychwelyd llyfrau darllen yn wythnosol.
-Gwylio rhagolygon y tywydd ar S4C yn ddyddiol.

Thema

Ein thema'r tymor yma yw 'Tywydd a Thrychinebau'. Byddwn yn dysgu terminoleg syml i ddisgrifio mathau gwahanol o dywydd. Byddwn yn gwneud arsylwadau manwl i weld sut mae'r tywydd yn newid yn ystod yr wythnos. Byddwn hefyd yn dechrau gwneud mesuriadau glaw syml a chymharu ein canlyniadau gyda gwledydd eraill. Byddwn yn gwneud nifer o arbrofion diddorol e.e. arbrawf dyodiad wrth ddysgu am y Gylchred Dwr ac edrych ar ba ddeunyddiau sy'n dryloyw, tryleu a di-draidd wrth ddysgu am ddiogelwch yn yr haul. Byddwn yn edrych ar ragolygon tywydd ac yn trafod sut mae tywydd a hinsawdd yn amrywio ar draws y byd. O ganlyniad, byddwn yn trafod eithafion tywydd a sut mae'r tywydd yn gallu effeithio bywydau unigolion. Byddwn hefyd yn arbrofi gydag offerynnau gwahanol a chreu seinwedd ein hunain i gynrychioli amrywiaeth o dywydd gwahanol. **Byddwn yn gweithio ar garreg droedio addas i bob unigolyn wrth astudio'r thema**

Pethau i gofio:-

-Llyfrau darllen adref **Dydd Gwener** ac yn ôl ar **Ddydd Llun** gyda chofnod.
-Cit ymarfer corff ar **Ddydd Mercher**.
-Dillad coedlan bob yn ail **Ddydd Mawrth** (yn dechrau ar yr **22ain o Fedi**).





Dear Parent / Guardian,

Here is a summary of the work your child will do during the next term in Year 2.

Language

During our language sessions this term we will continue to develop our writing skills. We will practice our punctuation skills in order to write correctly and practice keywords and thematic words in order to use them in our work correctly. We will continue to develop our handwriting this year, with sessions taking place every Friday. We will complete many fun tasks this term. For example, writing a description, re-writing a story, making a poster, writing instructions etc. We will be reading books as a class, reading as a group and choosing books at the right level for the individual to take home weekly on Fridays and return on Mondays with the reading record.

Mathematics

During our maths lessons we will continue to develop and intertwine numeracy skills while completing fortnightly problems using a variety of strategies. We will encourage children to reason carefully and apply suitable skills to solve the problems. For more information, you can check out the school's website:

www.ysgolpenalltau.com

Theme

Our theme this term is 'Weather and Disasters'. We will learn simple terminology to describe different types of weather. We will make detailed observations to see how the weather changes during the week. We will also begin to make simple rainfall measurements and compare our results to different countries. We will complete a range of interesting experiments, e.g. a precipitation experiment, whilst learning about the water cycle and looking at which materials are transparent, translucent and opaque whilst learning about sun safety. We will be looking at weather reports and discussing how the weather and climate vary across the world. This will result in discussions regarding extreme weather conditions and how the weather can affect individuals' lives. We will also be experimenting with different instruments and creating our own soundscape to represent a range of different weathers. **We will be working at a suitable level for each individual while studying this theme.**

Health and Wellbeing:-

We will be participating in Gymnastics during our Physical Education lessons. We will be learning specific movements and shapes, and will be discussing the impact exercise has on our bodies and mental health. Jigsaw's themes this term are: Being Me in My World and Celebrating Differences. We will discuss how we belong and feel safe in various places and how to be a good friend in our class.

How you can help your child home:-

-Practice saying, reading and writing thematic words.
-Return reading books weekly.
-Watch the weather forecast on S4C daily.

Things to remember:-

-Reading books home **Friday** and back on **Monday** with the reading record.
-Physical Education kit on **Wednesday**.
-Woodland clothes every other **Tuesday** (starting on the **22nd of September**).



